# Tirwedd a thirlun

***Tony Schiavone***

Cyfle i gyfuno iaith a daearyddiaeth drwy ysgrifennu disgrifiadau lleoliad sy'n gyfoethog o ran geirfa ddaearyddol.

Datblygu a defnyddio geirfa ddaearyddol yw un o ofynion penodol y cwricwlwm daearyddiaeth ac mae pawb sydd yn dysgu'r pwnc yn ymwybodol o rai termau a geiriau sydd yn peri trafferth mewn ysgolion.

Dau air o'r fath yw **tirwedd** a **thirlun**. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y geiriau hyn ac fe all disgrifio lluniau yn ôl tirwedd a thirlun yn aml gynorthwyo i wneud hynny'n gywir.

Cyfeiria'r gair **tirwedd** yn benodol at **uchder a siâp y tir** tra bod y gair **tirlun** yn cyfeirio nid yn unig at ffurf y tir ond **hefyd y defnydd a wneir o'r tir.** Cyfeiria'r defnydd a wneir o'r tir at yr adeiladau ar y tir a'r defnydd a wneir o'r adeiladau yn ogystal â'r defnydd a wneir o dir agored.

**Ymafer yn seiliedig ar lun o Gapel Celyn/Cwm Tryweryn.**

1) Gofyn i'r dosbarth gynnig geiriau i enwi nodweddion a disgrifio uchder a siâp y tir i greu banc geiriau, yna rhestru'r rhai sydd yn disgrifio'r llun dan sylw.
2) Nodi'r defnydd o'r tir a welir yn y llun er mwyn gwahaniaethu rhwng ystyr **tirwedd** a **thirlun.**
3) Labelu'r llun gan gyfeirio at y ***tirlun cyfan*** trwy ddefnyddio'r geiriau sydd yn cyfeirio at y tirwedd yn ogystal â'r **defnydd o'r tir**.
4) Llunio disgrifiad syml mewn brawddegau llawn o'r **tirwedd**.
5) Llunio ail ddisgrifiad tebyg i ddisgrifio'r **tirlun** cyfan.